Shared **Regulatory** Services

Gwasanaethau **Rheoliadol** a Rennir

Canllaw byr i

# Wasanaethau Rheoliadol a Rennir







Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

CARDIFF CAERDYDD

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

# Cyflwnaid

Mae Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cwmpasu ardaloedd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ac yn gwasanaethu mwy na 600,000 o drigolion a 10,000 o fusnesau.

Mae'r ardal yn cynnwys Caerdydd, Prifddinas Cymru gyda'I hamrywiaeth o sefydliadau diwylliannol, ariannol a masnachol ac ardaloedd gwledig Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg gyda'u heconomiau amaethyddol a thrwristiaeth fywiog.



## Gair gan ein Pennaeth Gwasanaeth, Dave Holland

"Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn I dynnu sylw at yr egwyddorion allweddol sy'n diffinio'r math o wasanaeth yr ydym ni'n anelu at fod; sefydliad sydd â hunaniaeth glir, tîm ysgogol ac ymroddedig, a sylfaen weithredu arionnol gadarn; sefydliad sydd ag enw da am ragoriaeth lie y mae pobl yn defnyddio ein gawanaethau gan eu bod eisiau gweithio gyda'r gorau.

Ers cychwyn a GRhr yn 2015, mae sgyrsiau cyson wedi bod am ad-drefnu ar draws Cymru. Pebyddem wedi disgwyl I'r trafodaethau hyn ddwn ffrwyth cyn cydweithio, ni fyddwn I byth wedi gwneud unrhyw beth. Nid yw ansicrwydd o ran dyfodol y gwasanaethau cyhoeddus wedi amharu ar ein dar pariaeth gwasanaeth.

Ni fyddwn ni'ncyflawni unrhyw beth drwy aros yn llonydd neu wrthsefyll newid. Mae'r byd yn newid o'n cwmpas ac felly er mwyn parhau I fod y effeithol ac yn bethnasol, mae'n rhaid I ni newid hefyd drwy gynnig datrysiadau I aelodau etholedig I'r heriau meant yn eu hwnebu, gan sicrhau bod pobl yn deal pwysigrwydd ac effaith ein rôl a drwy ystyried newid fel cynnydd yn hytrach na cham yn ôl".

## Ein gweledigaeth

***"bod y prif ddarparwr o wasanaethau rheoliadol sy'n diogelu iechyd, diogelwch ac economi'r rhanbath".***

### Ein pum blaenoriaeth

Gwella iechyd a lles

Diogelu pobl sy'n agored I niwed

Amddiffyn yr amglychedd

Cefnogi'r economi leol

Manteisio I'r eithaf ar ein hadnoddau

# Cynnwys Trefniadau Rheoli a Llywodraethu

## Cydbwyllgor



**Y Cynghorydd Michael Michael**
Cyngor Dinas Caerdydd



**Y Cynghorydd Dhanisha Patel**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



**Y Cynghorydd Eddie Williams**
Cyngor Bro Morgannwg



**Y Cynghorydd Norma Mackie**
Cyngor Dinas Caerdydd



**Y Cynghorydd David Lewis**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



**Y Cynghorydd John Thomas**
Cyngor Bro Morgannwg

## Bwrdd Rheoli



**Miles Punter**
Cyfarwyddwr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai



**Kelly Watson**
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



**Andrew Gregory**
Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
Cyngor Dinas Caerdydd



**Dave Holland**
Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir



**Will Lane**
Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cymdogaethau



**Christina Hill**
Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Masnachol



**Helen Picton**
Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Menter ac Arbenigol

### Gwasanaethau Cymdogaeth

Mae Gwasanaethau Cymdogaeth yn delio'n bennaf â gweithgareddau yn ymwneud â chartrefi preswyl neu sy'n cael effaith ar y gymuned leol, ac yn cynnwys :-

- Llygredd Sŵn ac Aer
- Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch tai mewn eiddo preifat ar rent
- Trwyddedu

### Gwasanaethau Masnachol

Prif swyddogaeth Gwasanaethau Masnachol yw sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio ag ystod o ofynion cwsmeriaid a gwarchod y cyhoedd mewn meysydd fel:-

- Diogelwch Bwyd (safleoedd manwerthu)
- Iechyd a Diogelwch
- Safonau Masnach (safleoedd manwerthu)
- Clefydau Heintus
- Iechyd Porthladd

### Gwasanaethau Menter ac Arbenigol

Mae Gwasanaethau Menter ac Arbenigol yn cynnwys gwasanaethau creu incwm – sy'n bodoli'n barod neu sydd â'r potensial o wneud hynny – gyda dull masnachol o farchnata gwasanaethau cyngor, ochr yn ochr ag arbenigaethau disylw gan gynnwys:-

- Tir Llygredig ac Ansawdd Aer
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli Plâu (Y Fro yn unig)
- Iechyd a diogelwch (Projectau a digwyddiadau)
- Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach (nad ydyw'n siopau)
- Ymchwiliadau mawr a diogelu
- Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru
- Labordy fesureg
- Cymorth Busnes GRhR
- Gwasanaethau cyngor a hyfforddiant
- Partneriaethau Prif Awdurdod


# Gwella iechyd a lles

Rydym ni'n cyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau i fusnesau, defnyddwyr a thrigolion. Mae gwaith a wneir i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, bod clefydau heintus, sŵn ac allyriadau aer dan reolaeth, bod risgiau yn y gweithle yn cael eu rheoli'n iawn, yn galluogi pobl i fyw mewn amglycheddau iach.


Ychwanegir a hyn ein gweithgareddau i sicrhau ansawdd eiddo rhent preifat, hyrwyddo amglychedd masnacu diogel a'n dull o reoleiddio safleoedd trwddedig i wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu'n gyfrifol. Mae'n amlwg bod y gwaith a wneir gan y GRhR yn hynod bwysig i iechyd a lles y ranbarth.





% yr arolygon risg uchel o ran hylendid bwyd (safleoedd â gradd A, B a C)





PAM 023 - % y safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd




% yr arolygon risg uchel o ran Safonau Masnach




% yr achosion sylweddol o dorri Safonau Masnach a gafodd eu cywiro





DS. Ni chesglir canlyniadau yn y fro tan 2016/17

Busnesau a oedd o'r farn bod archwilio diogelwch bwyd wedi'u helpu nhw I wella safonau hylendid bwyd y busnes




Nifer a ddaeth i'r hyfforddiant a deimlodd y bydd yn help iddynt wella safonau cydymffurfio yn eu busnes




**Clefydau Heintus**

**1926**

Achos o glefydau heintus yn cael eu derbyn gan y gwasanaeth, ac o'r rhain cadarnhawyd 1619 gan labordy

**Diogelwch Bwyd**

**4000+**

Cynhaliwyd mwy na 4600 o ymweliadau arolygu ac archwiliadau busnesau bwyd mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd ledled y rhanbarth

**Trwyddedu**

**1650+**

O ddigwyddiadau dros dro neu gymunedol yn cael eu hawdurdodi, gan alluogi digwyddiadau cymunedol neu adloniadol i gael eu cynnal yn ddiogel ledled y rhanbarth

**Fforffediadau**

**12900+**

Eitem a chynnyrch wedi'u hatafael drwy'r Llys gan gynnwys ffug-sigarennau, tybaco, gemwaith a nwyddau label dylunio fel dillad, esgidiau a phersawr

Ffigurau o 1st Ebril 2018 to 31st Mawrth 2019

# Diogelu pobl sy'n agored i niwed

Mae hon yn thema ganolog i lawer o'r gweithgareddau a gynhelir gan y GRhR. Rydym ni'n ceisio sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag sylweddau a chynhyrchion niweidiol. Caiff pobl hyn a phobl sy'n agored i niwed eu hamddiffyn rhag unigolion a masnachwyr diegwyddor. Caiff gweithgareddau benthyg arian anghyfreithlon ar draws Cymru eu herio'n gadarn, ac rydym ni eisiau i'r cyhoedd deimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio tacsis fel trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym ni'n gwneud hyn oll drwy weithio gyda'n cydweithwyr yn y Cyngor a phartneriaid allweddol eraill i helpu'r bobl sydd angen ein cymoth.

**Diogelu**

**600+**

Achos, ymholiad ac atgyfeiriad yn cyrraedd Tîm Diogelu GRhR

**Diogelu**

**475**

Buom mewn cysylltiad â 475 o bobl drwy weithgareddau addysg a chodi ymwybyddiaeth mewn perthynas â sgamiau a throseddau carreg drws.

**Diogelu**

**60**

Cynigiwyd cymorth i 80 o ddioddefwyr sgamiau a throseddau carreg drws. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys 230 o ymweliadau â defnyddwyr.

**Diogelu**

**16**

Gosodwyd 16 o unedau atal galwadau ac ymatebwyd ar frys o leiaf 6 gwaith mewn perthynas â thrigolion oedd yn pryderu neu'n teimlo dan bwysau pan fo masnachwyr yn eu cartrefi neu'n bwriadu dychwelyd i'w cartrefi.

**Trwyddedu**

**62**

Nifer y gyrwyr yr atgyfeiriwyd at y Pwyllgor Trwyddedu am ystyriaeth oherwydd ymddygiad amhriodol.

**Iechyd a Diogelwch**

**40**

Cartrefi gofal a gynrychiolir yn GRhR wedi cynnal gweithdy i gartrefi gofal preifat sy'n canolbwyntio ar reoli legionella, norofeirws a gwydnwch busnes a'r ffliw.

**Diogelu**

**3**

Gwnaed 3 erlyniad llwyddiannus mewn perthynas â materion diogelu

**Trwyddedu**

**91**

Cyhoeddwyd mwy na 91 o hysbysiadau atal ar gerbydau trwyddedig â diffygion ac a oedd yn anaddas i barhau i gael eu trwyddedu heb gael eu trwsio. Cyflwynwyd 346 o rybuddion llafar pellach.

Ffigurau o 1st Ebril 2018 i 31st Mawrth 2019

# Amddiffyn yr amglychedd


Mae samplo dŵr, monitro ansawydd yr aer, ac adfer tir halogedig yn cyfrannu at hyrwyddo amglychedd gwell sy’n golygu rhagolygon hirdymor gwell ar gyfer iechyd a lles ein cymunedau. Rydym ni’n gwneud mwy drwy sicrhau bod trigolion yn ddiogel ac wedi’u hamddifyn rhag niwsans, drwy ymchwilio i gwynion sŵn ac ymdrin â chŵn a cheffylau strae. Mae gennym ni ran allweddol i’w chwarae yn agendâu ehangach newid hinsawdd a chenedlaethau’r dyfodol drwy ein rôl orfodi o ran rheoli effeithlonrwydd ynni ar eiddo a chynhyrchion. Mae effaith y gweithgareddau hyn yn llai amlwg ar gymunedau yn y tymor byr, ond mae ganddynt rôl bwysig ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Pen-y-bont ar Ogwr


Caerdydd

Bro Morgannwg


% y cwnion am sŵn domestig ac aery r ymatebir iddynt o fewn 3 diwrnod gwaith





% y cwynion am sŵn masnachol a diwydiannol, ac aery r ymatebir iddynt o fewn un diwrnod gwaith




% y cwynion am larymau yr ymatebir iddynt o fewn diwrnod.




Nifer y samplau ansawdd aer a gymerwyd




| Trwyddedu | Iechyd a Lles Anifeiliaid | Llygredd | Gorfodi Tai |
|---|---|---|---|
| **417**<br>Y cerbydau trwyddedig yng Nghaerdydd oedd yn hŷn na’r oedran trwyddedadwy, gafodd eu harchwilio i sicrhau eu bod mewn cyflwr addas i barhau i gael trwydded. | **56**<br>Atafaelwyd 56 ceffyl yn y rhanbarth. 43 yng Nghaerdydd, 7 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a 6 yn y Fro | **6000+**<br>Nifer y cwynion am sŵn ac aer a ymatebwyd iddynt ledled y rhanbarth. | **58**<br>O gartrefi gwag yng Nghaerdydd yn ôl mewn defnydd drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol |

Ffigurau o 1st Ebril 2018 i 31st Mawrth 2019


# Cefnogi’r economi leol

Mae economi leol gadarn yn elfen allwedddol o ansawydd bywyd pobl leol. Mae gan waith y GRhR effaith sylweddol, ond yn ami yn anweledig, ar yr economi leol. Gall rhoi cyngor ac arweiniad amserol ar reoliadau fod o fudd I hyfywedd economaidd busnesau gan arwain at well arferion busnes.


Mae ein rôl gynyddol ym maes y Prif Awdurdod – sef cynnig cyngor pwrpasol a chymorth rheoliadau i fusnesau – yn dyst i’r honiad hwn. Mae llawer o’n gweithgarwch gwyliadwriaeth y farchnad yn canolbwyntio ar gynnal cydbwysedd yn y “farchnad”; mae gweithredu dull teg o orfodi rheoliadau yn helpu busnesau i gystadlu ar delerau cyfartal gan sicrhau amglychedd masnachu tecach.

Mae ein rôl fel rheoleiddiwr hefyd yn cynnwys rhoi gwybodaeth ac addysg er mwyn cefnogi defnyddwyr a’u galluogi nhw i fod yn fwy gwybodus a hyderus. Mewn oes lle y gall pobl brynu nwyddau a gwasanaethau heb adeal eu cartref, nid yw pwysigrwydd yr egwyddor “caveat emptor” erioed wedi bod yn fwy perthnasol.

% o’r busnesau hylendid bwyd newydd a nodwyd ac a dderbyniodd ymweliad





% y busnesau safonau masnach newydd a nodwyd ac a dderbyniodd ymweliad








Nifer a hyfforddwyd a deimlai y bydd yr hyfforddiant o fudd i’w busnes




Nifer a hyfforddwyd a fyddai’n argymell hyfforddiant i gyflogai, cydweithiwr neu ffrind






**Gweithio gyda Busnesau**

**169**

I unigolion wedi’u hyfforddi ar gyrsiau diogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch achrededig ar amryw lefel. Cafodd 70 unigolyn pellach hyfforddiant pwrpasol.



**Gweithio gyda Busnesau**

**27**

Partneriaethau Prif Awdurdod ar waith, y mae 9 yn gymorth i fusnesau o safbwynt datganoledig Cymreig.



**Gweithio gyda Busnesau**

**100%**

O’r rhai ar y Digwyddiad Hyfforddiant Diogelwch Bwyd Food for Thought yn meddwl ei fod yn dda neu’n rhagorol.



**Gweithio gyda Busnesau**

**94%**

Yn dweud y gallent wneud newidiadau i drefniadau iechyd a diogelwch o ganlyniad i ddod i Fforwm Busnes VEEP i reolwyr clybiau golff a gofalwyr caeau golff.

Ffigurau o 1st Ebril 2018 i 31st Mawrth 2019


# Manteisio I'r eithaf ar ein hadnoddau

Dyma oedd y catalydd gwreiddiol dros greu'r GRhR, ac mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau. Mae lleihau "treblu" ymdrech, cyflwyno prosesau gwella, gwneud i'n systemau weithio heb ymyrraeth gyson a gwella mynediad i'r gwasanaeth, il gyd o fudd i'n busnesau ac yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid.


Rydym ni'n cynhyrchu incwm, lle y bo'n bosibl, er mwyn ategu'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau; gweithgareddau megis marchnata ein labordy metroleg, cynnig gwasanaethau cynghori wedi'u talu creu Partneriaethau Prif Awdurdod ac ymestyn ein darpariaeth hyfforddiant i fusnesau. Mae'r rhain oll yn enghreifftiau o'n hymgais i symud tuag a ddiwylliant mwy "masnachol".

Yn bwysicaf oll, rydym yn cydnabod bod y bobl sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth yn hanfodol i lwyddiant y GRhR. Rydym ni'n sicrhau bod ein swyddogion yn effeithiol yn eu rolau drwy fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygu, sicrhau eu bod nhw'n rhan lawn o'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth, a meithrin amglychedd lle y caiff pobl eu hannog i feddwl, arwain ac arloesi.


Nifer y diwrnodau sâl o'r gwaith cyfwerth ag amser llawn





% Cyflogeion GRhG a ddaeth i Sgwrs Fawr y Fro




% y busnesau bwyd yn fodlon â lefel gyffredino gwasanaeth




% a ddywedodd fod yr hyfforddiant yn dda neu'n rhagorol




**Datblygu**

**85%**

O adolygiadau datblygu perfformiad staff yn cael eu cwblhau gyda'r staff perthnasol

**Gweithlu**

**84%**

O gyflogwyr a ymatebodd i arolwg staff yn cytuno bod gan y rheolwr llinell ots am eu lles

**Gweithlu**

**72%**

O gyflogeion a ymatebodd i'r arolwg staff yn cytuno eu bod yn cael hyfforddiant a datblygu angenrheidiol i wneud eu gwaith yn dda

**Creu incwm**

**£60,000+**

Cynhyrchwyd mwy na £60,000 o incwm drwy weithgareddau masnachol yn ystod 2018/19.

Ffigurau o 1st Ebril 2018 i 31st Mawrth 2019

# Cysylltu â ni

**GRhR.cymru**
Tel: 0300 1236696

**@SRS_Wales**

**http://www.srs.wales**

## Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

**Oriau swyddfa arferol:**
Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm
Dydd Gwener: 8.30 am i 4.30pm

## Caerdydd

Lefel 1
Neuadd y Sir
Caerydd
CF10 4UW

Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

**Oriau swyddfa arferol:**
Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm
Dydd Gwener: 8.30 am i 4.30pm

Swyddog Cerbydau Cyhoeddus
Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

**Oriau swyddfa arferol::**
Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 12.00pm a 1.30pm i 4.00pm
Dydd Gwener: 8.30am i 12.00pm a 1.30pm i 3.30pm

## Bro Morgannwg

Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU

**Oriau swyddfa arferol:**
Dydd Llun i ddydd Iau: 8.30am i 5.00pm
Dydd Gwener: 8.30 am i 4.30pm